## Uned 01 – Beth yw barn pobl ifanc am wleidyddiaeth?

**(O fewn yr uned hon, rydym wedi cynnwys sgiliau ymchwil, a fydd yn ddefnyddiol wrth i ddisgyblion weithio ar eu pen eu hunain i lunio holiadur)**

| Teitl y weithgaredd | Gweithgaredd | Adnoddau | Gwaith estynedig | Sgiliau |
|---|---|---|---|---|
| **Pwy sy'n dylanwadu ar ein bywydau?**<br>Pa effaith y mae gwahanol bobl yn ei chael ar ein bywydau? | Rhannu'r dosbarth yn grwpiau llai o 4-5. Darparu un pecyn o gardiau 'Pobl Enwog' i bob grŵp.<br><br>Gofyn i'r disgyblion egluro pwy o'r bobl hyn yw'r mwyaf dylanwadol a phwy yw'r lleiaf dylanwadol. Nodi hyn yn y 'Pyramid Meddwl' – y lleiaf dylanwadol ar y gwaelod a'r mwyaf dylanwadol ar y brig.<br><br>Dylai fod gennych ddau gategori sef gwleidyddion a phobl enwog eraill. O'r bobl hyn, dros bwy y gallant hwy bleidleisio? Dros bwy arall y gallant bleidleisio? | Canllawiau i athrawon – Uned 01<br><br>*Adnodd 01*: Pecyn o gardiau 'Pobl Enwog'.<br><br>*Adnodd 02*: Taflen waith 'Pyramid Meddwl'. Un i bob grŵp.<br><br>*Adnodd 03*: Taflen waith y siart pry copyn. Gallant weithio ar eu pen eu hunain neu mewn parau. | Gwaith ymchwil - chwilio am ddata:<br><br>Canfod:<br>–Canran o'r boblogaeth a bleidleisiodd dros ymgeiswyr ar raglenni teledu fel Fferm Ffactor, Celebrity Big Brother, Strictly Come Dancing, X Factor, Britain's Got Talent ac ati.<br><br>–Canran o'r boblogaeth sy'n pleidleisio mewn etholiadau lleol, cenedlaethol a Phrydeinig gan gynnwys refferenda. | Cyfathrebu: trafod barn, gwaith grŵp, gwaith pâr.<br><br>Ymchwil: Casglu data a'u cymharu.<br><br>Cynnig casgliadau.<br><br>Sgiliau meddwl.<br><br>Gweithio gydag eraill.<br><br>Datrys problemau. |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Gallai hyn ein harwain at y cwestiwn:<br><br>**Dros bwy y byddem yn pleidleisio?**<br><br>Dros bwy y byddem yn pleidleisio a pham? | e.e.cynghorwyr ysgol.<br>**Trafodaeth yn y dosbarth: Pwy sy'n dylanwadu ar ein bywydau?**<br><br>Nodi atebion ar daflen waith y siart Pry Copyn. Nodi pwy yw'r mwyaf dylanwadol a gofyn iddynt ymhelaethu ar hyn drwy nodi pam eu bod yn ddylanwadol, beth yw nodweddion arbennig y person a sut mae'r rhain yn cyfrannu at y ffaith bod y person yn dylanwadu ar eu bywydau hwy. | | | Cyfathrebu: gwaith grŵp, gwaith unigol, gwaith pâr.<br><br>Sgiliau meddwl.<br><br>Trafod barn.<br><br>Gweithio gydag eraill.<br><br>Gofyn cwestiynau. |
| **Sut mae dewis arweinydd?** | Y disgyblion i weithio mewn grwpiau bach i benderfynu pwy y credant sy'n arweinydd da. Yna, defnyddio'r rhyngrwyd i ymchwilio a nodi pum rheswm pam mae'r person hwn yn arweinydd mor | Cyfrifiaduron gyda mynediad i'r rhyngrwyd.<br><br>*Adnodd 04:* Taflenni gwybodaeth am yr ymgeiswyr a phapur | Ymchwilio ar y rhyngrwyd ac enwi 5 arweinydd dylanwadol arall yn y byd heddiw. | Cyfathrebu: trafod barn.<br><br>Gwaith grŵp/ pâr/unigol.<br><br>Sgiliau meddwl/ |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | dda.<br><br>Rhoddir gwybodaeth am saith ymgeisydd gwleidyddol i bob grŵp. Rhaid iddynt ddarllen y wybodaeth, a thrafod nodweddion cadarnhaol a negyddol pob ymgeisydd, ac yna pleidleisio dros y person y credant fyddai'n arwain Cymru orau.<br><br>Datgelu enwau'r holl ymgeiswyr ar ddiwedd y wers. | balot.<br><br>*Adnodd 05:* Nodweddion yr arweinwyr llwyddiannus. | | datrys problemau. TGCh. |
| **Beth yw barn eich ffrindiau/ athrawon/teulu am wleidyddiaeth?** | Gofyn y cwestiwn "A yw eich barn am wleidyddiaeth yn newid/cryfhau wrth ichi fynd yn hŷn neu a yw pobl ifanc yr un mor wleidyddol â'r genhedlaeth hŷn?" Trafodwch fel dosbarth neu mewn grwpiau. | *Adnodd 06*: Copïau o erthygl y *Western Mail*.<br><br>*Adnodd 07*: Sleidiau PowerPoint.<br><br>'Defnyddio holiaduron'<br><br>Byddai cyfle i greu'r holiaduron ar gyfrifiadur a'u | Creu holiadur ar-lein neu bôl piniwn ar wefan yr ysgol. | Cyfathrebu: Llunio a gofyn cwestiynau. Gwaith pâr/ grŵp/ dosbarth.<br><br>Ymchwil: Casglu data amrywiol. |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | Beth sy'n faterion gwleidyddol iddynt hwy? A ydynt yn trafod materion gwleidyddol adref? A ydynt yn trafod materion lleol neu genedlaethol yn unig?<br><br>Darllenwch erthygl y *Western Mail* a thrafodwch mewn parau neu mewn grŵp.<br><br>Llunio holiadur i weld a yw eich barn am wleidyddiaeth yn newid/cryfhau wrth ichi fynd yn hŷn neu a oes gan bobl ifanc fwy o ddiddordeb mewn materion gwleidyddol na'r genhedlaeth hŷn? (gwaith pâr neu unigol).<br>Darllen y daflen 'Defnyddio holiaduron' i'w cynorthwyo.<br><br>Cynnal arolwg gan ddefnyddio'r holiadur. Rhaid holi ystod eang o bobl o | llungopïo yn yr ysgol yn ddymunol. | | Dadansoddi'r data a gweld a oes cysylltiadau.<br><br>Rhifedd – casglu data/ cyflwyno graffiau.<br><br>TGCh.<br><br>Sgiliau meddwl/ datrys problemau. |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | wahanol oedrannau.<br><br>Dehongli’r data a’u cyflwyno ar ffurf adroddiad, erthygl papur newydd, cyflwyniad llafar ac ati. Crynhoi’r holl ffeithiau. Datblygu sgiliau ymchwil - casglu data cynradd, cyflwyno gwybodaeth mewn graffiau a’i dadansoddi. Meini prawf ymchwil unigol. (SA2, SA3, SA4)<br><br>Gwerthuso’r holiadur. Pa gwestiynau a weithiodd orau? Beth fyddech chi’n ei newid y tro nesaf? Datblygu sgiliau hunanasesu. | | | |

## Uned 02 – Beth yw gwaith Aelod Cynulliad?

**(O fewn yr uned hon, rydym wedi cynnwys sgiliau ymchwil defnyddiol y gellir eu defnyddio wrth wneud gwaith ymchwil fel unigolyn ar gyfer cynnal cyfweliad).**

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Pwy sy’n eich cynrychioli yn y Cynulliad?** | **Dewis 01- gwaith pâr neu unigol**<br><br>Gallwch fynd i wefan y Cynulliad sef i ganfod gwybodaeth am eich Aelodau Cynulliad drwy roi eich cod post yn y man priodol ar y dudalen flaen.<br><br>Llunio cyfweliad gydag Aelod Cynulliad. Datblygu'r sgil angenrheidiol o lunio cyfweliad - casglu data cynradd (SA2/SA3).<br><br>Ymchwilio i enghreifftiau o gwestiynau da, perthnasol a bachog ar y rhyngrwyd/mewn cylchgronau e.e. Question | Canllawiau i athrawon – Uned 02<br><br>Cyfrifiaduron sydd â mynediad i’r rhyngrwyd.<br><br>Llyfrgelloedd ysgol/lleol.<br><br>Gwefannau - BBC, ITV, S4C, Sianel 4, BBC Radio 4, Radio Wales, Radio Cymru, Senedd TV, Democratiaeth Fyw. | Llunio cyflwyniad PowerPoint bywiog ynglŷn ag un o’u Haelodau Cynulliad gan gynnwys gwybodaeth gefndir, eu hymlyniad gwleidyddol, eu canlyniad yn yr etholiad diwethaf a sut i gysylltu â nhw.<br>I amrywio’r dasg, gall rai llunio cyfweliad ar gyfer Twitter h.y. cwestiynau bachog yn unig ac atebion nad ydynt yn cynnwys mwy na 140 o lythrennau/rhifau.<br><br>Creu Ffeil o Ffeithiau | Cyfathrebu<br>Gwaith pâr/ grŵp/dosbarth.<br><br>Llythrennedd: Llunio ac ysgrifennu cyfweliad.<br><br>Ymchwil.<br><br>Gwneud penderfyniadau: enghreifftiau o gyfweliadau da ac effeithiol mewn cylchgronau, teledu, radio ac ar y rhyngrwyd. |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | Time/Pawb a'i Farn ac ati, neu actorion sy'n hybu eu ffilmiau.<br><br>Beth sy'n gwneud cyfweliad da?<br><br>**Dewis 02 – gwaith grŵp**<br>Rhannu'r dosbarth yn bum grŵp a gofyn i bob un chwilio am wybodaeth am un o'u Haelodau Cynulliad a llunio cwestiynau sy'n addas ar gyfer cyfweliad ar raglen deledu megis Hacio. Yna cyflwyno'r wybodaeth i weddill y dosbarth. | | am eich Aelod Cynulliad lleol – un ochr A4. | TGCh.<br>Gweithio gydag eraill.<br><br>Datrys Problemau.<br>Meddwl/Datrys problemau/<br>Darllen/Deall/<br>Llafar/<br>Ysgrifennu/<br>Gwrando. |
| **Beth yw gwaith Aelod Cynulliad?** | Dylunio a threfnu dyddiadur diwrnod ar gyfer Aelod Cynulliad.<br>I gwblhau'r dasg gellid:<br>a) gwylio tri fideo sy'n dangos gwaith amrywiol Aelod Cynulliad.<br>b) gwylio Democratiaeth Fyw y | Fideos a lluniau o Aelodau'r Cynulliad | Ymweliad â'r Cynulliad. Gofyn am farn Aelod am bwnc llosg yn eich ardal leol. Herio'r farn honno. | Cyfathrebu:<br>Gofyn cwestiynau i Aelodau Cynulliad Cwestiynu'r atebion.<br><br>TGCh. |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | BBC/senedd.tv<br>c) gwahodd Aelod i'r ysgol a'i holi'n uniongyrchol. Byddai hyn yn cysylltu â'r gwaith o lunio holiadur. | | | Sgiliau meddwl /datrys problem /Darllen/ Llafar/ Ysgrifennu/ Gwrando. |
| **Sut mae cyflwyno syniad ar gyfer Deddf newydd i Gymru neu ymgyrch i Aelodau'r Cynulliad?** | Gwylio fideo sy'n nodi beth yw gwaith y Pwyllgor Deisebau.<br><br>Rhannu'r dosbarth yn bum grŵp a gofyn i bob grŵp drafod un ddeiseb yr un. A fyddent yn cefnogi'r ddeiseb? Pe buasent yn Aelod Cynulliad, pa gwestiynau y byddent yn eu gofyn i'r deisebwyr sy'n rhoi tystiolaeth gerbron y Pwyllgor Deisebau?<br>Cyflwyno'r ddeiseb i weddill y dosbarth a nodi beth yw eu barn nhw am y ddeiseb.<br><br>Ar ddiwedd y cyflwyniadau, gellir trefnu etholiad dosbarth i ddewis y ddeiseb orau. | Canllawiau i athrawon Uned 02<br><br>Fideo deisebau<br><br>Canllaw i athrawon sy'n nodi'r manylion am wahanol ddeisebau.<br><br>Canllaw i athrawon. Cyngor ar gyflwyno deiseb lwyddiannus.<br><br>*Adnodd 08*: Taflen Ddeisebau.<br><br>*Adnodd 09*: Pwerau heb eu datganoli. | | Cyfathrebu: Gwaith pâr/ grŵp/dosbarth.<br><br>Llafar:<br>Llunio cwestiynau craffu.<br><br>Cyflwyno syniad o flaen cynulleidfa. |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | *Adnodd 10*: Yr 20 Pwnc | | |

| Uned 03 – Beth yw eich barn chi? | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **A ddylid gwahardd taro plant?**<br><br>Cynnal dadl am bwnc a drafodwyd yn Siambr y Cynulliad ym Mae Caerdydd. | Amser paratoi – sicrhau eu bod yn darllen y nodiadau a'r ffeithiau ar daro plant a'u bod yn gwybod y ffeithiau cyn mynegi barn.<br><br>Beth yw manteision ac anfanteision gwahardd taro plant? Gofyn iddynt nodi'r manteision a'r anfanteision. Gall y grwpiau nodi'r rhain ar ffurf map meddwl yn gyntaf os dymunant.<br><br>Penodi un person yn y dosbarth i fod yn Llywydd. Gallwch ofyn i unigolion wirfoddoli i fod yn Llywydd. Os oes mwy nag un ymgeisydd, defnyddiwch y cardiau pleidleisio i bleidleisio dros bwy ddylai fod yn Llywydd. | Canllawiau i athrawon – Uned 3<br><br>*Adnodd 11:* Nodiadau i gyflwyno pwnc y ddadl i athrawon.<br><br>*Adnodd 12*: Nodiadau i gyflwyno pwnc y ddadl i ddisgyblion. Yn cynnwys ffeithiau, manteision, anfanteision a'r hyn a ddywedodd Aelodau'r Cynulliad.<br><br>Clip fideo o Aelodau'r Cynulliad yn trafod y pwnc yn y Siambr www.senedd.tv (19 Hydref 2011). | Edrych ar glipiau eraill o ddadleuon tebyg ar www.senedd.tv | Cyfathrebu: Gwaith pâr/ grŵp/dosbarth.<br><br>Llafar: Crynhoi safbwynt a'i gyflwyno ar lafar.<br><br>Ymateb i wrthwynebiad o flaen cynulleidfa.<br><br>Sgiliau meddwl.<br><br>Datrys problemau. |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | Unwaith y bydd Llywydd wedi'i benodi, gall y ddadl ddechrau.<br><br>Ar ddiwedd y ddadl, defnyddiwch y cardiau pleidleisio i ddangos eich barn.<br><br>Cynnal trafodaeth am y canlyniad a dulliau effeithiol o ddwyn perswâd.<br><br>Gwylio clip fideo o Aelodau'r Cynulliad yn trafod yr un pwnc yn y Siambr ym Mae Caerdydd (19 Hydref 2011).<br>Beth y maent wedi'i ddysgu o wylio'r gwleidyddion yn siarad yn gyhoeddus? Beth yw eu barn am sut y pleidleisiodd yr Aelodau ar ddiwedd y ddadl? | *Adnodd 13*: Graff i ddangos canlyniad pleidlais yr Aelodau.<br><br>Cardiau Pleidleisio:<br>Gwyrdd - Cytuno<br>Coch – Anghytuno<br>Gwyn – Ymatal | | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Pa syniad y byddech yn ei gyflwyno i'r Pwyllgor Deisebau?** | Rhannu'r dosbarth yn grwpiau ffocws i drafod naill ai ymgyrch leol neu gyfraith newydd a fyddai'n effeithio ar Gymru gyfan.<br><br>Cyflwyno'r ymgyrch/cyfraith newydd ar ffurf poster, cyflwyniad PowerPoint, podlediad neu araith.<br><br>Cynnal cystadleuaeth grŵp blwyddyn ysgol i ddewis yr un gorau a'i anfon at y pwyllgor deisebau: (deisebau@cymru.gov.uk) | Cyfrifiaduron gyda mynediad i'r rhyngrwyd.<br><br>*Adnodd 14*: Enghreifftiau o ddeisebau a gyflwynwyd i Gynulliad Cenedlaethol Cymru. | Darllen y cyfarwyddiadau ar wefan y Cynulliad ar sut i gyflwyno deiseb: (http://www.assemblywales.org/cy/gethome/e-petitions/get-petitions-guidance-2.htm).<br><br>Darllen a phleidleisio dros ddeisebau sydd ar wefan y Cynulliad: (https://www.assemblywales.org/cy/gethome/e-petitions/sign-petition.htm) | Cyfathrebu: Gwaith pâr/grŵp/dosbarth.<br><br>Darllen cyfarwyddiadau.<br><br>Ystyried a dehongli'r deisebau gorau.<br><br>Sgiliau meddwl /datrys problemau. |
| **Sut y byddech yn cyflwyno Dadl Fer yn y Cynulliad?** | Egluro beth yw'r sesiwn Dadl Fer yn y Cyfarfod Llawn h.y. dadl sy'n para dim mwy na 30 munud. | Canllawiau i athrawon <u>Uned 3</u><br><br>01 – Dyfyniad o Reolau Sefydlog Cynulliad | Dod o hyd i wybodaeth am gystadleuaeth siarad cyhoeddus lleol/cenedlaethol/rhyngwladol. | Cyfathrebu: Gwaith grŵp / dosbarth.<br><br>Sgiliau ymchwil. |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | Y dosbarth cyfan i benderfynu ar gyfres o reolau ar gyfer y ddadl e.e. dim iaith anweddus, dim sylwadau cas am berson arall yn y ddadl ac ati.<br><br>Rhannu'r dosbarth yn grwpiau gyda phum disgybl ym mhob grŵp.<br><br>Rhoi testun i bob grŵp ei ymchwilio/dadlau arno - dewis Pwnc Dadl o Flwch Balot.<br><br>Pob grŵp i ethol cadeirydd (Y Llywydd).<br><br>Dewis dau ddisgybl i gefnogi a dau ddisgybl i wrthwynebu'r pwnc dan sylw ym mhob grŵp. Rhaid i bob disgybl o'r grŵp ymchwilio i'r testun. | Cenedlaethol Cymru.<br><br>02- Balot yr Aelodau ar gyfer Dadl Fer.<br><br>Pynciau i'w trafod ar stribedi o bapur neu gardiau i'w dewis o'r Blwch Balot.<br><br>Gwybodaeth am waith y Llywydd.<br><br>03 – Rheolau'r Ddadl Fer yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru.<br><br>04 – Gweithgareddau Dosbarth – awgrymiadau ar gyfer pynciau i'w trafod mewn grwpiau. | | Mynegi barn.<br><br>Sgiliau llafar.<br><br>Ymateb i feirniadaeth.<br><br>Dewis a dethol. |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | Y Ddadl Fer i bara am 10 munud yn unig.<br>Wrth i bob grŵp drafod, bydd y gynulleidfa o weddill y myfyrwyr yn penderfynu pwy sydd wedi 'ennill' ar sail grym cynnwys eu dadl, sgiliau cyflwyno, ac ati.<br><br>Neu gellir cynnal pleidlais gyfrinachol yn y dosbarth gan ddefnyddio'r Blwch Balot ar gyfer y Ddadl Fer.<br><br>Ni chaniateir i grŵp bleidleisio dros ei hunan! | Cloc neu amserydd.<br>05 – Asesu'r Drafodaeth Grŵp.<br><br>Blwch Balot y Ddadl Fer. | | |